# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Mawrth 2022

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15 - 09.30)

## Cyfarfod cyhoeddus (09.30-14.25)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30)

### 2.1 Llythyr gan y Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

Y defnydd o'r acronym 'BAME' gan Gomisiwn y Senedd

### 2.2 Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

(Tudalennau 3 - 4)

**Dogfennau atodol:**

Recriwtio'r rhai sy'n cyrraedd o Affganistan fel gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.3 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 5 - 6)

**Dogfennau atodol:**

Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2022

**2.4 Llythyr gan Weinidog yr Economi**

(Tudalennau 7 - 15)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23

**2.5 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 16 - 17)

**Dogfennau atodol:**

Gosod Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Cosbau Sifil) 2022

**2.6 Llythyr gan Weinidog yr Economi**

(Tudalen 18)

**Dogfennau atodol:**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws)

**2.7 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 19 - 23)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23

**2.8 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 24 - 25)

**Dogfennau atodol:**

Gwybodaeth ychwanegol am sesiwn dystiolaeth y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd ar 3 Chwefror

**2.9 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg**

(Tudalennau 26 - 28)

**Dogfennau atodol:**

Gwelliannau i'r Bil Cymwysterau Proffesiynol

**2.10 Llythyr gan Giles Thorley, Prif Weithredwr Banc Datblygu Cymru**

(Tudalennau 29 - 30)

**Dogfennau atodol:**

Craffu ar yr Adroddiad Blynyddol - Banc Datblygu Cymru

**2.11 Llythyr gan Weinidog yr Economi**

(Tudalennau 31 - 32)

**Dogfennau atodol:**

Pyst Rheolaeth Ffiniau (Saesneg yn unig)

## 3 Craffu Gweinidogol - Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(09.30-10.30) (Tudalennau 33 - 45)

Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Tim Render, Cyfarwyddwr, Tir, Natur a Bwyd

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau

Christianne Glossop, y Prif Swyddog Milfeddygol

**Dogfennau atodol:**

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## Egwyl (10.30-10.45)

## 4 Gwaith Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidogion – Gweinidog yr Economi

(10.45-12.20) (Tudalennau 46 - 63)

Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi

Steffan Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr Datblygu Twristiaeth a Chwaraeon

Claire McDonald, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Economaidd

Heledd Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr Marchnata

**Dogfennau atodol:**

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru – Ymchwiliad Twristiaeth, Lletygarwch a Manwerthu

## Egwyl (12.20-12.50)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 6 cyfarfod heddiw.

**Dogfennau atodol:**

## 6 Fframweithiau Cyffredin (preifat)

(12.50-13.50) (Tudalennau 64 - 116)

Paul Harrington, Pennaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol

Rob Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr, Deddfwriaeth Pontio Ewropeaidd

Victoria Jones, Pennaeth yr Is-adran Amaeth – Cynaliadwyedd a Datblygu'

Bill MacDonald, Pennaeth Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd

Estevao Simoes, Pennaeth Polisi Pontio a Masnach yr UE, Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol

**Dogfennau atodol:**

Fframwaith cyffredin dros dro: cymorth amaethyddol

Fframwaith cyffredin dros dro: iechyd a lles anifeiliaid

Fframwaith cyffredin dros dro: gwrtaith

## Egwyl (13.50–13.55)

## 7 Cytundeb Masnach Rydd y DU ac Awstralia

(13.55–14.25) (Tudalennau 117 – 121)

Gwyn Howells, Hybu Cig Cymru

Huw Thomas, Cynghorydd Gwleidyddol, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

Nick Fenwick, Undeb Amaethwyr Cymru

**Dogfennau atodol:**

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.25)

## 9 Preifat

(14.25–15.00)

Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

Trafodaeth graffu ar Fframweithiau Cyffredin

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Eitem 2.1

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
[drwy e-bost]

15 Chwefror 2022

Annwyl Mark

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2021 ynghylch defnydd Comisiwn y Senedd o'r acronym 'BAME'.

Yn gynnar yn ystod tymor yr hydref 2021, fe wnaeth swyddogion y Comisiwn ymgynghori â rhwydwaith cydraddoldeb Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol (REACH) y Comisiwn ynghylch yr hyn y mae'n ei ffafrio. Mynegodd aelodau'r rhwydwaith nifer o safbwyntiau, a'r hyn yr oedd y rhwydwaith yn ei ffafrio yn gyffredinol oedd cadw'r acronym BAME. O ganlyniad i'ch llythyr, mae'r rhwydwaith wedi gweithio gyda thîm Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn i ailedrych ar hyn.

Fe wnaeth Comisiwn y Senedd drafod y defnydd o'r acronym 'BAME' yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr. Trafododd y Comisiwn bapur a oedd yn nodi rhywfaint o'r ddadl ehangach ynghylch defnyddio'r acronym gan gydnabod ei bod yn anodd hoelio hanesion a diwylliannau cymhleth pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig mewn un ymadrodd neu acronym.

Cytunodd y Comisiynwyr y byddai'r Comisiwn yn:

a. Cydnabod cyd-destun fel sbardun allweddol i ddefnyddio terminoleg a dewis bod yn benodol wrth ddefnyddio terminoleg lle bynnag y mae hynny'n bosibl;

b. Os nad yw'n bosibl bod yn benodol, defnyddio'r term(au) cyfunol 'lleiafrif ethnig' a 'chymuned lleiafrifoedd ethnig' yn lle'r acronym a'r term cyfunol B.A.M.E.; ac

c. Adolygu'r defnydd o derminoleg yn rheolaidd a monitro trafodaethau mewnol ac allanol.

Yn ogystal, cytunwyd y dylai swyddogion y Comisiwn gynnig cwrdd â'r Aelodau hynny o'r Senedd sydd o gefndir ethnig lleiafrifol i drafod y mater ymhellach, ac y dylai'r wybodaeth yr oedd y

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Comisiynwyr wedi'i hystyried fod yn sail i sesiwn friffio ar gyfer Aelodau, gan ddechrau gyda chadeiryddion pwyllgorau.

Cytunodd y Comisiynwyr bod y canllawiau yn y papur yn cael eu cyhoeddi'n fewnol er mwyn helpu swyddogion y Comisiwn i ddrafftio dogfennau.

Bydd Fforwm y Cadeiryddion yn trafod yr eitem ddydd Iau 17 Chwefror 2022.

Fe wyddoch fod Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r Aelodau ymgysylltu â'r broses ymgynghori drwy'r Arolwg Ymgysylltu â'r Aelodau, sy'n fyw ar hyn o bryd. Mae nifer o'r Aelodau wedi dweud y byddent yn croesawu trafodaeth bellach gyda swyddogion y Comisiwn, ac mae hyn yn cael ei drefnu ar hyn o bryd. Yn yr un modd, pe byddai ]Aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn credu y byddai sgwrs debyg yn ddefnyddiol, rhowch wybod i mi er mwyn i mi gael gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir

Manon Antoniazzi

**Manon Antoniazzi**

**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

28 Chwefror 2022

Annwyl Vaughan a Jane,

Ers i adroddiad y Pwyllgor, Cyfeiriad Newydd ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm, gael ei gyhoeddi, mae Alltudion ar Waith wedi cysylltu â mi i ddweud bod gan lawer o'r bobl o Afghanistan a ddaeth i Gymru yn 2021 brofiad o yrru cerbydau mawr iawn, yn aml oherwydd cyfnod o wasanaeth milwrol. Mae Alltudion ar Waith wedi dweud wrthyf y byddai llawer o'r bobl sydd â'r profiad hwn yn awyddus i ddod yn Yrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm yma yng Nghymru. Maent hefyd yn cyfeirio at ddarparu hyfforddiant am ddim i gael trwyddedau Cerbydau Nwyddau Trwm, sef rhywbeth sy'n cael ei ddarparu yn Lloegr gan Lywodraeth y DU.

Mae'n ymddangos y gallai recriwtio'r bobl sy'n cyrraedd o Afghanistan fel gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm helpu i liniaru'r prinder gyrwyr sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. A fyddai modd i chi roi gwybod i mi ynglŷn â'r canlynol:

- A yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyrwyddo'r rhaglen brentisiaeth gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm yn uniongyrchol ymysg ffoaduriaid yng Nghymru, gan gynnwys y rhai a ddaeth o Afghanistan y llynedd?
- Mae gwefan Llywodraeth y DU yn disgrifio Bŵt-camps Sgiliau Cerbydau Nwyddau Trwm fel cyrsiau hyfforddi am ddim yn Lloegr. A allwch egluro a oes modd i ffoaduriaid yng Nghymru gael mynediad at y rhain, ac a fyddech yn ystyried eu cefnogi i gael mynediad at yr hyfforddiant naill ai drwy drafnidiaeth i gwrs yn Lloegr neu drwy gynnal cwrs tebyg yng Nghymru?

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ac at Delyth Jewell AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Cofion cynnes,

Paul Davies MS

Chair: Economy, Trade and Rural Affairs Committee



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/0218/22

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.davies@senedd.wales

2 Mawrth 2022

Annwyl Paul,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am fy nghymeradwyaeth i'r Offeryn Statudol a gaiff ei lunio gan Lywodraeth y DU sy'n cynnwys elfennau o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru.

Bydd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Gorchymyn Diwygio 2022) yn gwneud newidiadau i Orchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008, sy'n OS ar draws y DU, yn dilyn ymgynghoriad ledled y DU â'r diwydiant a rhanddeiliaid.

Rwy'n cytuno, yn yr achos hwn, i gymeradwyo Victoria Prentis, y Gweinidog Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, i wneud newidiadau i Orchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008. Sefydlwyd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth gan Orchymyn 2008 o dan bwerau a roddwyd yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Deddf NERC).

Mae'r offeryn hwn yn diwygio Gorchymyn 2008 a chaiff ei lunio gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan bwerau a roddir gan adrannau 87(1)a, 88 a 97(1) a pharagraffau 5 a 6 o Atodlen 10 yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Mae adran 87 o Ddeddf NERC yn rhoi'r pŵer i'r "awdurdod priodol" wneud Gorchymyn sy'n sefydlu corff at ddiben neu ddibenion sy'n dod o fewn adran 88 (Dibenion a ganiateir gan fyrddau) ac i roi swyddogaeth neu swyddogaethau iddo sy'n dod o fewn adran 89 (Swyddogaethau byrddau a ganiateir).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Diffinnir yr "awdurdod priodol" yn adran 96(1) o Ddeddf NERC, mewn perthynas â'r materion a nodir yn isadran 96(2), gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu gyda chymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban neu (yn ôl fel y digwydd) adran berthnasol Gogledd Iwerddon. At y dibenion presennol, mae'r materion yn "arfer pwerau eraill mewn perthynas â swyddogaeth drawsffiniol bwrdd".

Mae'r cyfnod rwyf yn rhoi cymeradwyaeth ar ei gyfer wedi'i gyfyngu i'r broses o basio'r Rheoliadau.

O dan Adran 96(1) o Ddeddf NERC, Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod priodol" ac mae ganddynt y pŵer i ddeddfu mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â Chymru. Fodd bynnag, gan y bydd y gwelliannau arfaethedig yn effeithio ar swyddogaethau trawsffiniol AHDB, yr Ysgrifennydd Gwladol (gyda chymeradwyaeth y Llywodraethau Datganoledig) yw'r awdurdod priodol. Nid yw Gweinidogion Cymru, o dan y pwerau a nodir yn Neddf NERC, yn cael llunio OS o'r math hwn.

Mae buddiannau Cymru yn parhau i gael eu diogelu wrth i'r Gorchymyn fynd ar ei hynt Seneddol a bydd angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru arno i'w basio.

Trafododd a mireiniodd swyddogion Llywodraeth Cymru Orchymyn Diwygio 2022 gyda'u cyd-swyddogion yn DEFRA, Llywodraeth yr Alban a DAERA, gan gynnwys datblygu'r ddogfen ymgynghori a'r ymatebion sydd wedi llunio cynnwys y Gorchymyn. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i gydnabod y meysydd y mae'r Gorchymyn yn gymwys i Gymru fel rhai sydd o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru. Mae swyddogion DEFRA wedi bod yn ymwybodol o'r angen i geisio cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer Gorchymyn Diwygio 2022 ac wedi ymgysylltu'n llawn â swyddogion wrth i'r Gorchymyn gael ei ddrafftio ac wedi adlewyrchu sylwadau o fewn y Gorchymyn.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er gwybodaeth.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS

Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

2 Mawrth 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich adroddiad drafft ar 14 Chwefror yn dilyn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor ar 20 Ionawr ar gynlluniau gwario'r Economi yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23.

Atodir ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r dyraniad cyllid a'r amcanion cysylltiedig ar gyfer y cynllun gweithredu a fydd yn cefnogi Dewch i Lunio'r Dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**
Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun adfer ar gyfer yr economi ymwelwyr, 'Dewch i Lunio'r Dyfodol', sydd wedi bod yn brif ffocws gweithgarwch dros y flwyddyn ddiwethaf fel ffocws tymor byr a chanolig pwysig i gefnogi'r adferiad ar ôl y pandemig. Bydd y gwaith o gyflawni'r cynllun adfer yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd adroddiad cyflawni yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir ac rydym yn awr yn symud yn ôl i'n cynllun strategol hirdymor, 'Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-25'.

**Goblygiadau Ariannol**
Mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2022-23 yn cael ei ddatblygu i gyflawni ein blaenoriaethau Croeso i Gymru a bydd yn darparu cydbwysedd rhwng gwariant cyfalaf a refeniw i gefnogi'r sector yn uniongyrchol drwy'r cyfnod adfer parhaus a datblygu cynnig twristiaeth gynaliadwy ymhellach. Roedd Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yn dyrannu o £5m o gyfalaf a £11.962m o refeniw ar gyfer twristiaeth. Byddwn yn falch o ddarparu dadansoddiad manylach o'r dyraniadau ar ôl cwblhau'r Cynllun Busnes.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu pecyn o gymorth wedi'i dargedu i gefnogi adferiad economaidd yn y sectorau hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y cyfyngiadau diweddar.

**Ymateb: Derbyn**
Mae Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru a chymorth Datblygu Rhanbarthol ac Arloesi drwy Lywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth, arweiniad, cyngor a chymorth pwrpasol ac rydym yn dal i adolygu'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau i gychwyn, i ddal ati ac i dyfu.

**Goblygiadau Ariannol**
Mae cyllid wedi cael ei sicrhau hyd at fis Mawrth 2025 i barhau i ddarparu'r cymorth pwrpasol sydd ar gael drwy Lywodraeth Cymru ac mae swyddogion yn gweithio ar fanylion y ddarpariaeth ar gyfer y cyfnod hwn. Mae modd teilwra'r ddarpariaeth bresennol i ddiwallu anghenion rhanbarthau neu sectorau lle mae angen hynny er enghraifft. Fodd bynnag, os bydd angen ehangu'r ddarpariaeth, byddai hyn yn golygu bod angen sicrhau cyllid ychwanegol.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion y gweithgaredd penodol y bydd y dyraniadau refeniw a chyfalaf ar gyfer y Banc Cymunedol yn cael eu defnyddio i'w cefnogi.

**Ymateb: Derbyn**
Mae ein gweledigaeth ar gyfer Banc Cymunedol Cymru yn seiliedig ar y model cydfuddiannol, sy'n eiddo i ac yn cael ei redeg er budd ei aelodau, yn hytrach na sicrhau'r elw mwyaf posibl i gyfranddalwyr. Bydd yn fanc cymunedol modern,

gwasanaeth llawn, sydd â'i bencadlys yng Nghymru. Bydd yn darparu mynediad at gynnyrch a gwasanaethau dwyieithog, drwy amrywiaeth o sianeli gan gynnwys digidol, ar-lein ac yn y gangen.

Rhoddais Ddatganiad Llafar ar 14 Rhagfyr 2021 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Banc Cambria, gan groesawu'r cyhoeddiad gan Gymdeithas Adeiladu Sir Fynwy (MBS) yn datgan ei bwriad i ddatblygu ei dull o ddarparu banc cymunedol yng Nghymru.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o greu Banc Cymunedol i Gymru, gan weithio'n agos gyda Cambria Cydfuddiannol Cyf a Chymdeithas Adeiladu Sir Fynwy, gan ymateb a darparu cymorth priodol, wrth iddynt barhau i ddatblygu eu cynlluniau cyflawni strategol a gweithredol i sefydlu Banc Cambria.

Gan adeiladu ar y cynnig amlinellol gan Gymdeithas Adeiladu Sir Fynwy yn 2021, rhagwelir y bydd cynnig buddsoddi manwl yn cael ei gyflwyno yn ystod 2022 yn gofyn am fuddsoddiad masnachol gan Lywodraeth Cymru a buddsoddwyr eraill.

Mae'r dyraniad cyfalaf sydd wedi'i neilltuo ar gyfer Banc Cymunedol yn sefydlu'r capasiti i ystyried buddsoddiad o'r fath maes o law ar delerau masnachol.

**Goblygiadau Ariannol**
Rwyf yn gyfrifol am y Banc Cymunedol yn ystod ei gam datblygu, gyda chymorth cyllid refeniw o £0.150m dros 2022-23 a 2023-24 ar gyfer datblygu polisi ac ymchwil parhaus drwy gaffael arbenigedd / adroddiadau allanol mewn meysydd fel asesu effaith economaidd, diwydrwydd dyladwy ariannol a chyngor cyfreithiol.

Mae fy nghyd-Aelod y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn arwain ar y buddsoddiad cyfalaf i sefydlu'r Banc Cymunedol. Mae sefydlu'r Banc Cymunedol gan Gymdeithas Adeiladu Sir Fynwy yn dibynnu ar gyflwyno cyfalaf newydd i'r Gymdeithas. Mae'r rhain yn gyllidebau 3 blynedd ac felly nid ydynt yn cynnwys gofynion am gyfalaf ar gyfer y blynyddoedd wedi hynny. Disgwylir cynnig buddsoddi llawn gan Gymdeithas Adeiladu Sir Fynwy yn rhan olaf 2022 a bydd hwn yn fasnachol.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor ar sail flynyddol am y cynnydd yn erbyn ei tharged o ddyblu maint y sector eiddo i weithwyr erbyn diwedd y Senedd hon.

**Ymateb: Derbyn**
Mae Perchnogaeth Gweithwyr Cymru yn rhan o raglen Busnes Cymdeithasol Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop hyd at fis Mawrth 2023. Ar ôl mis Mawrth 2023 mae cyllid wedi cael ei sicrhau drwy Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen i gefnogi a hyrwyddo perchnogaeth gan y gweithwyr yng Nghymru.

Darperir cyngor pwrpasol wedi'i ariannu'n llawn i helpu i benderfynu ai Cynlluniau Cyfranddaliadau a Pherchnogaeth gan y Gweithwyr yw'r ateb cywir i'r busnes. Bydd

dewisiadau'n cael eu harfarnu ac wedyn goruchwylir y gwaith o ddylunio a gweithredu'r strwythur perchnogaeth gan y gweithwyr a fydd yn cael ei ddewis.

Ar hyn o bryd mae gan Gymru 30 o fusnesau cwbl weithredol sy'n eiddo i'r gweithwyr, gyda phedwar o'r rhain wedi'u ffurfio yn 2020.

Yn ddiweddar, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru £0.070m o gymorth ychwanegol i hyrwyddo perchnogaeth gan y gweithwyr yng Nghymru. Bydd y cyllid yn helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu deunyddiau marchnata ac ymgyrchoedd ar gyfer perchnogaeth gan y gweithwyr.

**Goblygiadau Ariannol**
Dim goblygiadau ariannol gydag ymrwymiad parhaus i Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru.

| |
|---|
| **Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau eu trafodaeth â Banc Datblygu Cymru, gan gynnwys ynghylch eu hadnoddau a sut y gall gefnogi busnesau i lwyddo. |

**Ymateb: Derbyn**
Mae Banc Datblygu Cymru'n rhan allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi economi Cymru drwy ei gwneud hi'n haws i fusnesau gael y cyllid sydd ei angen arnynt i gychwyn, i gryfhau ac i dyfu. Mae gan y Banc Datblygu lefel uchel o gyfalaf ac mae'n gallu cynnig atebion cyllid sy'n seiliedig ar ddyled ac ecwiti, drwy bortffolio o 16 cronfa fyw sy'n berthnasol i fusnesau ar wahanol gamau yn eu datblygiad a'u twf.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Lythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth i Fanc Datblygu Cymru ym mis Tachwedd 2021. Mae'r Cylch Gwaith hwn yn datgan nodau polisi lefel uchel ar gyfer Banc Datblygu Cymru, yn pennu cyfeiriad a ffocws Banc Datblygu Cymru yn ystod tymor y Llywodraeth hon ac yn darparu pwynt cyfeirio i Weinidogion Cymru o ran rheoli perfformiad cyffredinol Banc Datblygu Cymru. Mae'r llythyr Cylch Gwaith yn cyfeirio'n benodol at ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu y disgwylir i Fanc Datblygu Cymru chwarae rhan allweddol yn y gwaith o'u cyflawni, yn benodol: (i) ehangu mynediad at gyfalaf tymor estynedig, a (ii) cynyddu'r defnydd o gyfrannau ecwiti.

Gan ymateb i'r Llythyr Cylch Gwaith, ym mis Mai 2022 bydd Bwrdd Banc Datblygu Cymru yn cyflwyno Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer y cyfnod 2022-27 a fydd yn mynd i'r afael â'r prif amcanion polisi a heriau sefydliadol.

At ei gilydd, buddsoddodd y Banc Datblygu £197.6 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2020/21. Er bod £92 miliwn o fenthyciadau wedi dod o Gynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru i gefnogi cwmnïau drwy'r pandemig, roedd buddsoddiadau o'r holl gronfeydd 'busnes fel arfer' wedi aros yn sefydlog. Roedd £105.6 miliwn wedi darparu ystod o gymorth i fusnesau ar draws pob rhan o'r economi ac ar bob cam ar y llwybr twf.

Yn y flwyddyn ariannol gyfredol hon, yn ystod y cyfnod o naw mis rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2021, gwnaeth y Banc Datblygu £79 miliwn o fenthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i dros 300 o fusnesau yng Nghymru ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau ar gyfer y flwyddyn.

Cafodd ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gymorth busnes ei ddangos yn glir drwy gyfalafiad sylweddol, gwerth £270m, Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru yn 2021. Mae'r cam hwn yn bont a fydd yn caniatáu i'r sefydliad gynnal lefelau benthyca i fusnesau wrth i fynediad at gronfeydd yr UE ddod i ben.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21, roedd gan y Banc Datblygu £724m o gyfalaf cyffredinol a chyfalaf trafodion ariannol ar gael i'w fuddsoddi mewn blynyddoedd i ddod yn unol ag achosion busnes y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn rhoi'r banc mewn sefyllfa i wneud buddsoddiadau busnes ac eiddo ar gyfradd o dros £130m y flwyddyn ar gyfartaledd dros y 7 mlynedd nesaf – gan gynnal cyflenwad o gyllid hygyrch i fusnesau.

Mae'r banc wedi'i strwythuro fel sefydliad cenedlaethol er mwyn iddo gefnogi busnesau ledled Cymru yn llwyddiannus. Mae ganddo dros 80 o reolwyr buddsoddi sy'n cefnogi anghenion busnesau o'i 5 swyddfa yn Wrecsam, Caerdydd, Llanelli, Cyffordd Llandudno a'r Drenewydd. Mae'n parhau i weithio'n agos gyda phob sefydliad busnes a rhanddeiliaid yn ecosystem ariannol Cymru, gan gynnwys Busnes Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru.

**Goblygiadau Ariannol**
Dim goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o fanylion am y risg i ddyfodol Busnes Cymru a nodi'r goblygiadau i fusnesau os na chaiff cyllid cyffredinol ar gyfer Busnes Cymru ei gynnal ar y lefel bresennol.

**Ymateb: Derbyn**
Mae cyllid wedi cael ei sicrhau hyd at fis Mawrth 2025 fel rhan o gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod gwybodaeth, arweiniad, cyngor a chymorth i fusnesau yng Nghymru yn parhau drwy wasanaeth Busnes Cymru. Mae sicrhau cyllid hyd at fis Mawrth 2025 wedi'i wneud ar draul gweithgareddau eraill a dulliau ariannol o gefnogi datblygiad busnes ac arloesedd.

**Goblygiadau Ariannol**
Dim goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gwario'r dyraniad ar gyfer gradd-brentisiaethau a'i chynlluniau ar gyfer ehangu'r cyrsiau a chynyddu amrywiaeth gradd-brentisiaid yn unol ag adroddiad 2020 Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a rhanddeiliaid eraill i ystyried ehangu'r rhaglen Gradd-brentisiaeth. Disgwylir y bydd y gwaith ehangu'n canolbwyntio ar raglenni presennol ym maes Digidol/TGCh a Gweithgynhyrchu Uwch yn ogystal â datblygu llwybrau newydd sy'n seiliedig ar gynlluniau cyflogaeth a sgiliau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, canlyniadau'r gwerthusiad o'r rhaglen, blaenoriaethau buddsoddi a'r gyllideb. Mae'r gwerthusiad yn cynnwys casglu barn dysgwyr. Rydym eisoes yn gweithio gyda CCAUC i wella'r gwaith o farchnata gradd-brentisiaethau er mwyn ysgogi'r galw gan ddysgwyr a chyflogwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyrhaeddiad rhaglenni.

**Goblygiadau Ariannol**
Mae £22m wedi cael ei sicrhau yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer y tair blynedd nesaf i gefnogi buddsoddiad i ehangu'r rhaglen Gradd-brentisiaeth. Bydd y gyllideb hon yn cael ei throsglwyddo i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg er mwyn i CCAUC allu cyflwyno'r rhaglen, gan weithio'n uniongyrchol gyda'r sector prifysgolion ledled Cymru.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir i'r Pwyllgor sut mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r amcan o ennill cyllid cystadleuol ar gyfer ymchwil ac arloesi i ddisodli cyllid yr UE, a fydd yn cael ei golli i Gymru.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Rydym wedi cyflawni ar yr argymhelliad i ailgyflwyno cronfa arloesi; cafodd £15m ei ddarparu yn 2021-22, ochr yn ochr ag £81.7m ar gyfer ymchwil ansawdd i CCAUC. Rydym hefyd wedi darparu £2m o gyllid ychwanegol ar gyfer Rhwydwaith Arloesi Cymru. Cafodd y Rhwydwaith ei sefydlu mewn ymateb i adroddiad 2020 yr Athro Graeme Reid, 'Cryfder mewn Amrywiaeth', a oedd yn argymell creu menter newydd i fanteisio ar amrywiaeth capasiti ymchwil ac arloesi Cymru drwy gydweithio.

Byddwn yn parhau i weithio ar draws Cabinet Llywodraeth Cymru, gydag UKRI ac Innovate UK ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu ymchwil ac arloesedd gyda phwyslais cynyddol ar Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn nes at y farchnad ac sy'n cyd-fynd ag anghenion diwydiannol, busnes a chymdeithasol Cymru. Rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth, a chyda CCAUC, i ddatblygu cynlluniau i gefnogi rhagor o geisiadau o ansawdd uchel i Lywodraeth y DU a ffynonellau allanol eraill o gyllid ymchwil ac arloesi. Bydd y cynlluniau hyn yn cyd-fynd ag anghenion presennol yr ecosystem Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, a byddant yn dibynnu ar gydweithio cryf, meithrin gallu a chapasiti, yn hytrach na chyfnewid gweithgareddau a oedd yn cael eu hariannu gan yr UE am weithgareddau union yr un fath.

Nid un o swyddogaethau cyllideb Llywodraeth Cymru yn unig yw ennill cyllid ymchwil ac arloesi cystadleuol. Bydd angen i bartneriaid – yn enwedig mewn addysg bellach ac uwch yn ogystal â diwydiant – ailystyried eu dull gweithredu ac, yn hollbwysig, bydd angen i Lywodraeth y DU a chyrff ariannu'r DU fynd i'r afael â'r anghydbwysedd sylweddol yn y ffordd y caiff cronfeydd ymchwil ac arloesi'r DU eu dargyfeirio tuag at dde-ddwyrain Lloegr. Byddai cyhoeddiadau diweddar Llywodraeth y DU am "godi'r gwastad" yn gyfystyr â £9m yn fwy o gyllid ymchwil ac arloesi i Gymru tra bod £60m wedi'i golli oherwydd- er gwaethaf addewidion pendant mynych – nad oes cyllid llawn wedi'i roi yn lle cronfeydd yr UE. Felly, mae diffyg o £51m yn ogystal â

dargyfeirio cronfeydd ymchwil ac arloesi'r DU oddi wrth Gymru a nifer o ranbarthau Lloegr.

**Goblygiadau Ariannol**
Mae Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn cynnal lefel y cyllid i CCAUC. CCAUC fydd yn penderfynu sut bydd yn dosbarthu'r arian a ddyrennir.

**Argymhelliad 15.** Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn argymell ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru nodi dadansoddiad o'r cyfraniadau gan bob Prif Grŵp Gwariant – ar lefel llinell wariant yn y gyllideb – sy'n cyfuno i wneud y cyfanswm o £500 mewn ariannu yr amcangyfrifir sydd ei angen er mwyn cyflawni'r Warant i Bobl Ifanc. Dylai'r dadansoddiad hwn ei gwneud yn glir beth yw cyllid newydd a beth sy'n barhad o raglenni presennol.

**Ymateb: Derbyn**
Rydym yn buddsoddi dros £500m yn y Warant i Bobl Ifanc yn 2022-23. Bydd hyn yn cynnwys:

- Mae £20 miliwn o gyllid newydd wedi cael ei ddyrannu y Mhrif Grŵp Gwariant yr Economi i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc i gefnogi'r garfan newydd ddisgwyliedig o Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn 2022-23.
- Bydd £513.8m o gyllid presennol yn parhau i gefnogi'r bobl ifanc 16-24 NEET hynny drwy ymyriadau niferus, ac yn cael ei ategu gan wasanaeth cynghori Cymru'n Gweithio, a ddarperir gan Gyrfa Cymru. Dyma amcangyfrif o'r cyfraniadau fesul Prif Grŵp Gwariant:
- £463.5m yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg;
- £47.9m ym Mhrif Grŵp Gwariant yr Economi; a
- £2.4m yn y Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol.

Dangosir manylion y cyllid ar lefel Llinell Wariant yn y Gyllideb yn y tabl isod.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg £000 | Prif Grŵp Gwariant yr Economi £000 | Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth ôl-16 | 463,500 | | | 463,500 |
| Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | | 44,000 | | 44,000 |
| Cymunedau am Waith | | 790 | | 790 |
| Grant Plant a Chymunedau | | | 2,400 | 2,400 |
| Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth | | 600 | | 600 |
| Busnes Cymru | | 2,500 | | 2,500 |
| **Cyllideb bresennol** | **463,500** | **47,890** | **2,400** | **513,790** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | | 20,000 | | 20,000 |
| **Cyllideb newydd** | **-** | **20,000** | **-** | **20,000** |
| **Cyfanswm y gyllideb** | **463,500** | **67,890** | **2,400** | **533,790** |

**Goblygiadau Ariannol**
Dim, gan fod yr argymhelliad yn ymwneud â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dyrannu cyllid penodol i sicrhau bod busnesau Cymru yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a pharatoi ar gyfer newidiadau sy'n deillio o gytundebau masnach rydd newydd.

**Ymateb: Gwrthod**
Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i gyflawni rhaglen uchelgeisiol o gymorth allforio drwy weithredu'r Cynllun Gweithredu Allforio i Gymru. Nod cyffredinol y Cynllun yw creu sector allforio cryf, bywiog a chynaliadwy; a rhoi ystod gynhwysfawr o raglenni allforio ar waith i gefnogi busnesau ar eu taith allforio. Mae hyn yn amrywio o ysbrydoli busnesau i allforio; meithrin gallu allforio; helpu busnesau i ddod o hyd i gwsmeriaid tramor; a chael mynediad at farchnadoedd tramor, gan gynnwys y rheini lle cytunir ar Gytundebau Masnach Rydd. O fewn hyn, mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu i gefnogi busnesau i baratoi ar gyfer unrhyw gytundebau masnach rydd newydd a manteisio i'r eithaf arnynt, gan gynnwys, er enghraifft, drwy gymorth a chyngor 'ar lawr gwlad' drwy ein tîm o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol, sy'n gweithio ledled Cymru; rhaglen o weminarau ar bynciau a marchnadoedd allforio penodol; teithiau masnach i farchnadoedd allweddol; a thrwy ein menter clwstwr allforio newydd. O ystyried ehangder y gweithgarwch sy'n cael ei gyflawni drwy'r Cynllun, ac yng nghyd-destun amgylchedd masnachu byd-eang sy'n newid yn barhaus, mae'n bwysig bod digon o hyblygrwydd yn y gyllideb i gyflawni'r holl feysydd uchod. Byddwn yn parhau i adolygu ein rhaglenni a'n gweithgareddau i sicrhau y gall busnesau fanteisio ar unrhyw gyfleoedd newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Yn ogystal â'n cynllun allforio, bydd swyddogion yn gweithio ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pawb sy'n delio'n uniongyrchol â busnesau yn deall y cyfleoedd a gyflwynir gan y Cytundebau Masnach Rydd newydd a'u heffeithiau posibl. Mae'r tîm Polisi Masnach eisoes wedi dechrau'r broses o weithredu rhaglen gyfathrebu fewnol i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i gwmnïau yng Nghymru drwy'r timau allforio, busnes a rhanbarthau sy'n hyrwyddo ac yn darparu gwasanaethau cefnogi.

**Goblygiadau Ariannol**
Dim

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru gadw'r Pwyllgor i'r funud o ran datblygiadau swyddi rheoli ffiniau newydd yng Nghymru, yn ogystal â chanlyniadau trafodaethau mewnol a rhynglywodraethol ynghylch eu hariannu

**Ymateb: Derbyn**

Fel yr eglurais yn flaenorol i'r pwyllgor, rydym yn dal i fod yn y cam dylunio a chynllunio ar gyfer ein safleoedd rheoli ffiniau, gyda Chaergybi ar gam pellach yn ei ddatblygiad na De-orllewin Cymru.

Bydd y Pwyllgor yn gwybod bod Llywodraeth y DU wedi cytuno mewn egwyddor i ariannu costau adeiladu cyfleusterau parhaol a thros dro ar ôl cyflwyno hawliad am arian wrth gefn, wedi'i gefnogi gan achosion busnes ar gyfer Gogledd a De-orllewin Cymru. Er bod Llywodraeth y DU wedi cytuno'n amodol i ariannu costau adeiladu'r safleoedd rheoli ffiniau, mae wedi dweud yn benodol na fydd yn talu'r costau gweithredol.  Mae swyddogion Trysorlys Cymru yn dal i gynnal trafodaethau gyda Thrysorlys EM ynghylch cyllid ar gyfer costau sefydlu a delir ymlaen llaw a chostau gweithredol.

Byddaf yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn ystod y camau allweddol.

Mae'r ansicrwydd ynghylch protocol Gogledd Iwerddon yn dal yn bryder. Fel y dywedais wrth y Senedd ddechrau'r flwyddyn, mae Llywodraeth y DU unwaith eto wedi ymestyn rheolaethau fesul cam ar gyfer symud nwyddau o ynys Iwerddon i Brydain Fawr ar ôl 1 Ionawr 2022; gan greu ansicrwydd i'r Llywodraeth ac i eraill sy'n gorfod paratoi.

**Goblygiadau Ariannol**
Dim, gan fod yr argymhelliad yn ymwneud â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/0612/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.irranca-davies@senedd.wales

3 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Sancsiynau Sifil) 2022 a Rheoliadau Deddf Ifori 2018 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) 2022.**

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn eich gwneud yn ymwybodol fy mod i'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Sancsiynau Sifil) ar 16 Mawrth 2022. Bydd y rheoliadau hyn yn dod i rym ar 6 Mehefin 2022.

Ceisiodd Victoria Prentis AS, y Gweinidog dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, am gytundeb i wneud y rheoliadau hyn a fydd yn gymwys i'r Deyrnas Unedig.

Mae Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Sancsiynau Sifil) 2022 ("y Rheoliadau Gorfodi") yn cynnig darpariaeth fanwl ar gyfer gweithredu'r prosesau gorfodi o dan Ddeddf Ifori 2018 a bydd yn gymwys i'r DU gyfan.

Mae Rheoliadau Deddf Ifori (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) 2022 yn mynd gyda'r Rheoliadau Gorfodi. Bydd y rheoliadau hyn yn cychwyn y rhannau o'r Ddeddf sy'n weddill ar 6 Mehefin, pan fydd y gwaharddiad ar werthu ifori yn y DU yn cychwyn.

Fel arfer, polisi Llywodraeth Cymru yw deddfu dros Gymru mewn perthynas â materion cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, gan fod safbwynt Llywodraeth Cymru ar fasnach ifori yn cyd-fynd â safbwynt DEFRA a gweinyddiaethau eraill y DU, rwy'n caniatáu'r ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn fy marn i yn dod â chysondeb i'r broses o gyflwyno gwaharddiad ar werthu ifori yn y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Heb ganiatâd o’r fath, ni fyddai Cymru’n cyd-fynd â gweinyddiaethau eraill y DU o ran ei hymagwedd at wahardd gwerthiannau ifori. Gallai hyn leihau’r effeithiau cadarnhaol o wahardd gwerthiannau ifori ledled y DU a chynnal y galw am gynhyrchion sy’n cynnwys ifori gan gyfrannu at y bygythiad parhaol i boblogaethau byd-eang eliffantod, sy’n cael eu hela’n anghyfreithlon ar gyfer eu hifori.

Rwyf am anfon copi o’r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig er gwybodaeth.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-VG-0726-22

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.wales

3 Mawrth 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Chwefror mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) ar y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws).

Ers gosod yr LCM cafwyd trafodaethau brys a helaeth rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar lefel swyddogol a gweinidogol.

Nid wyf wedi gallu darparu diweddariadau ystyrlon na manwl o ystyried natur gyflym a newidiol y trafodaethau hynny a'r cynigion sy'n cael eu trafod. Fodd bynnag, yn dilyn rhywfaint o symudiad diweddar gan Lywodraeth y DU o'i safbwynt gwreiddiol, rwyf heddiw wedi gosod Memorandwm atodol heddiw yn argymell cydsyniad i'r Bil ar sail y cymalau diwygiedig arfaethedig a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 14 Mawrth.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Chair, Economy, Trade & Rural Affairs Committee
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

07 Mawrth 2022

Annwyl Paul,

Diolch am adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar eich gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft y Llywodraeth 2022 - 23. Amgaeaf ymateb i'r argymhellion yn y bennod gyntaf sy'n ymwneud â'm cyfrifoldebau portffolio.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Ymateb i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022/23.**

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan Awdurdodau Lleol yr adnoddau priodol i orfodi Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021-26.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae ein Cynllun Lles Anifeiliaid pum mlynedd i Gymru yn un trawsbynciol ac yn ymgorffori'r pedwar ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu o ran lles anifeiliaid a gedwir. Mae'n amlinellu hefyd sut y byddwn yn integreiddio pob math o waith polisi lles anifeiliaid parhaus, gan gynnwys canllawiau statudol ar gyfer y Rheoliadau presennol, trwyddedu arddangosion anifeiliaid, microsglodynnu cŵn a chathod, lles anifeiliaid sy'n cael eu cludo, a Chodau Ymarfer. Cydnabyddir yr angen i adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol ar les anifeiliaid, ynghyd â chynnal rhywfaint o hyblygrwydd pe bai angen camau polisi newydd. Yn olaf, mae'r cynllun yn mynd i'r afael â sut, lle y bo'n briodol, y byddwn yn cydweithio â gweinyddiaethau eraill y DU i gyflawni ein hamcanion er lles anifeiliaid yng Nghymru a thu hwnt.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i lwyddiant ein cynllun sy'n cydnabod rôl orfodi Awdurdodau Lleol, yn enwedig mewn perthynas â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wella'r cymwysterau ar gyfer arolygwyr lles anifeiliaid i godi eu statws proffesiynol. Ar hyn o bryd, mae'r Prosiect Gorfodi Awdurdodau Lleol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad allweddol at y gwaith o gyflawni'r ymrwymiad hwn. Bellach yn ei ail flwyddyn, mae'r prosiect yn gwella hyfforddiant swyddogion gorfodi Awdurdodau Lleol ac yn gwneud gwell defnydd o adnoddau presennol o fewn Awdurdodau Lleol ledled Cymru. Mae'r prosiect, a oedd yn canolbwyntio ar Fridio Cŵn i ddechrau, wedi ehangu i gynnwys gorfodi ein system drwyddedu a gyflwynwyd yn ddiweddar mewn perthynas â Gwerthu Anifeiliaid Anwes drwy Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021. Mae'r ehangu hwn wedi'i gefnogi gan adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru dros ddwy flynedd i alluogi recriwtio arbenigedd pellach drwy swyddogion trwyddedu anifeiliaid pwrpasol i ddarparu'r hyfforddiant arbenigol angenrheidiol a bydd y gost yn cael ei thalu drwy gyllidebau presennol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Mae’r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd a’r Gweinidog Newid Hinsawdd yn cydweithio i sicrhau y dylid cynyddu cyllid ‘cymorth grant’ craidd Cyfoeth Naturiol Cymru i adlewyrchu’r llwyth gwaith**

**cynyddol a grëir yn sgil gorfodi Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 fel ag y maent.**

**Ymateb:  Derbyn mewn egwyddor**

Ar ôl cwblhau ei adolygiad sylfaenol yn ddiweddar, mae CNC yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i gyd-gynllunio cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer pob maes polisi/cyflenwi sy'n diffinio'r lefel ddisgwyliedig o wasanaeth, y metrigau a ddefnyddir i fesur perfformiad y gwasanaeth hwnnw a'r cyllid cysylltiedig sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaeth y cytunwyd arno. Bydd y gwaith o ddatblygu'r cytundebau lefel gwasanaeth yn cael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2022, a rhagwelir y byddant yn cynnwys gweinyddu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Os felly, bydd y gwaith o ddatblygu'r cytundebau lefel gwasanaeth yn archwilio'r berthynas rhwng cyflawni swyddogaethau statudol sy'n bodoli eisoes sydd wedi'u dwyn ymlaen o fewn y Rheoliadau, gan gynnwys y swyddogaethau hynny na fyddant yn cael eu disodli tan ddiwedd y cyfnodau pontio perthnasol, ac unrhyw gyfrifoldebau newydd.

Bydd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd a'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn cydweithio i sicrhau bod  cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn adlewyrchu'r cytundebau lefel gwasanaeth fel y bo'n briodol.

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru neilltuo cyllid clir ar gyfer ymgysylltu â ffermwyr ynghylch pontio i fodel newydd o gymorth ffermio.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae cyllid ar gyfer ail gam y cyd-gynllunio wedi'i ddyrannu. Bydd y gwaith hwn yn cychwyn ym mis Gorffennaf 2022, gan gasglu barn ac adborth ffermwyr ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Yna, bydd ymgynghoriad ar ein cynigion terfynol yn dilyn yn 2023. Mae rhaglen allgymorth i ffermwyr hefyd yn cael ei chwmpasu ar gyfer 2024 cyn lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2025.

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried y gwaith gweinyddol ychwanegol a grëir gan y nifer fawr o gontractau unigryw arfaethedig o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a dyrannu cyllid yn unol â hynny.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd dadansoddiad cost a budd, a fydd yn ystyried costau gweinyddol cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil Amaethyddiaeth. Rydym hefyd yn gofyn am adborth gan ffermwyr ar strwythur y Cynllun yn ail gam y cyd-gynllunio.

**Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai'r Gweinidog barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ailystyried y fethodoleg ar gyfer pennu cyllid i ddisodli cyllid yr UE ar gyfer cymorth amaethyddol a mynd i'r afael â'r diffyg yn y cyllid ar gyfer 2021-22. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod trafod dro ar ôl tro y pryderon y mae Llywodraeth Cymru (a'r llywodraethau datganoledig eraill) wedi tynnu sylw atynt mewn perthynas â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd.

Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, ar y cyd â Gweinidogion Cyllid o weinyddiaethau'r Alban a Gogledd Iwerddon, ym mis Hydref 2021. Nododd ein pryderon cyffredin am y fethodoleg ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid yr UE, ac mae wedi gofyn am i hon gael ei hailystyried. Ni chafwyd ymateb gan Lywodraeth y DU.

Aeth y Gweinidog Cyllid ati i godi hyn eto yn uniongyrchol gyda'r Prif Ysgrifennydd yng nghyfarfod pedairochrog y Gweinidogion Cyllid ar 12 Ionawr, gan nodi bwriad Llywodraeth y DU i ymestyn y fethodoleg hon i gyllid i ddisodli'r Cronfeydd Strwythurol. Bydd hyn yn arwain at golli bron i £1 biliwn o gyllid i Gymru.

Byddaf yn parhau i roi gwybod i'r Pwyllgor am yr ymdrechion i bwyso ar Lywodraeth y DU i ailystyried y fethodoleg ar gyfer pennu cyllid ailosodiad yr UE ar gyfer cymorth amaethyddol a mynd i'r afael â'r diffyg cyllid ar gyfer 2021-22. Rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth drawsbleidiol gan y Pwyllgor a chroesewir eich sylwadau parhaus ar y mater hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Ystyrir ei bod yn annhebygol iawn y bydd Llywodraeth y DU yn ailystyried ei methodoleg nac yn gwneud unrhyw beth i fynd i'r afael â'r diffyg o £242 miliwn mewn cyllid a ddarperir ar gyfer cymorth gwledig ym mlynyddoedd ariannol 2021/22, 2022/23 neu 2023/24. Ystyriwyd y sefyllfa hon yng Nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021.

**Argymhelliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i egluro’r dyraniadau cyllidebol ar gyfer ei swyddogaethau o ran pysgodfeydd.**

**Ymateb: Derbyn**

Y Gyllideb Adnoddau gyffredinol ar gyfer y Cam Gweithredu *'Pysgodfeydd a dyframaethu gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru'* , a ddarparwyd yn nhabl Llinellau Gwariant y Gyllideb Ddrafft a'r papur tystiolaeth, oedd £5.813 miliwn. Nodir hyn yn y tabl isod.

Adeg cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, roedd Llinell Wariant yn y Gyllideb 2830 Cynlluniau Pysgodfeydd yn cynnwys £2.1 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid yr UE, a fydd yn cael ei drosglwyddo i Linell Wariant yn y Gyllideb 2870 Pysgodfeydd cyn gynted â phosibl er mwyn alinio'r maes gwaith hwn yn well ar gyfer polisi pysgodfeydd. Llinell Wariant yn y Gyllideb 2830 Cynlluniau Pysgodfeydd yw'r cyfraniad domestig yn unig ar gyfer y rhaglen EMFF bresennol, ac mae'n dod i £565,000.

Mae'r gyllideb Adnoddau Cyllidol ar gyfer Pysgodfeydd (Llinell Wariant yn y Gyllideb 2870) yn 2022-23 ychydig dros £4.5 miliwn (£4.674 miliwn), a £574,000 o Adnoddau Anghyllidol (Dibrisiant) wedi’u dyrannu ar gyfer y Fflyd Llongau (Cyfanswm o £5.248 miliwn)

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r trosglwyddiadau disgwyliedig i'r gyllideb ar gyfer Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Pysgodfeydd a Cynlluniau Pysgodfeydd (Cynlluniau Pysgodfeydd a Ariennir gan yr UE yn flaenorol) y cyfle nesaf posib.

| BEL Description | BEL Number | Control | 2022-23 Draft Budget | Budget Adjustments to be Actioned | 2022-23 Final Budget |
|---|---|---|---|---|---|
| Fisheries Schemes | 2830 | Fiscal Resource | 2,665 | -2,100 | 565 |
| Fisheries | 2870 | Fiscal Resource | 2,574 | 2,100 | 4,674 |
| Fisheries | 2870 | Non-Fiscal Resource | 574 | 0 | 574 |
| | | **TOTAL** | **5,813** | **0** | **5,813** |

Bydd y gyllideb Pysgodfeydd yn ariannu amryw o faterion statudol a pholisi yn y meysydd canlynol:

- Rheoli a Gorfodi, gan gynnwys Systemau Digidol Pysgodfeydd
- Polisi Pysgodfeydd Domestig
- Gofynion Tystiolaeth Pysgodfeydd
- Masnach Pysgodfeydd.

Dylai'r Pwyllgor nodi mai cyfrifoldeb y Gweinidog Newid Hinsawdd yw cyllidebau Morol bellach, a bod dyraniadau wedi'u cynnwys yn ym Mhrif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.cymru

8 Mawrth 2022

Annwyl Paul,

Yn dilyn sesiwn dystiolaeth y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) ar 3 Chwefror, hoffwn fynd ar drywydd dau bwynt:

*Labelu ac olrhain*

Fel y dywedais yn y Pwyllgor, rydym ar y camau cwmpasu cynnar gan weithio gydag Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd (FPAs) eraill. Bydd angen i unrhyw gynlluniau yn y dyfodol gydymffurfio â rheoliadau diogelwch a deunydd pacio bwyd a bydd angen iddynt sicrhau bod modd olrhain cynhyrchion pysgodfeydd yn ôl i'r ffynhonnell ar hyd y gadwyn gyflenwi.

Mae angen i gynlluniau labelu ac olrhain fod yn dryloyw, gan ganiatáu i'r defnyddwyr wybod bod eu pysgod wedi'u dal mewn modd cyfrifol, diogel a moesegol, eu bod yn ddiogel i'w bwyta ac o ble y daethant.

Mae nifer o gynlluniau achredu ar gael ar draws diwydiant bwyd a diod y DU. Bydd angen ystyried yn ofalus ynglŷn â mabwysiadu cynllun presennol neu ddatblygu cynllun newydd gan y diwydiant, er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben o fewn y sector bwyd môr. Bydd yn bwysig, wrth ystyried hyn gyda'r Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd eraill, ein bod yn elwa ar y gwersi a ddysgwyd o gynlluniau'r sector Bwyd a Diod ac Amaethyddiaeth ledled y DU, ac yn adolygu gwaith ymchwil ar agweddau a disgwyliadau defnyddwyr a rhanddeiliaid cyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hyd nes y cytunir ar y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a bod trafodaethau manwl wedi'u cynnal, nid ydym mewn sefyllfa i ddarparu unrhyw fanylion na chostau dangosol i'r llywodraeth na'r diwydiant ar hyn o bryd.

*Y Fframwaith Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd*

Rhoddais wybod i'r Pwyllgor am gyhoeddi'r Cytundeb Fframwaith Amlinellol a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd ar 17 Chwefror. Rwy'n hapus i drafod ymhellach â'r Pwyllgor, yn bersonol neu drwy ohebiaeth ar y dogfennau hyn.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Eitem 2.9

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
SeneddEconomi@senedd.cymru

8 Mawrth 2022

Annwyl Paul,

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno dau welliant i'r Bil Cymwysterau Proffesiynol ar 22 Chwefror.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cynnal Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin yn fuan. Yn anffodus, nid yw hyn yn rhoi cyfle i'r Senedd ystyried y gwelliannau cyn cwblhau'r Cyfnod Adrodd. Mae hyn hefyd yn golygu bod Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r Bil heb sicrhau cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd, nac yn wir unrhyw un o'r Llywodraethau Datganoledig. Mae hyn yn gwbl annerbyniol ac yn torri confensiwn Sewel. Er bod y gwelliant 'torri allan' i'w groesawu, nid yw'r gwelliannau a gyflwynwyd yn mynd i'r afael yn llawn â'm pryderon.

Bydd y gwelliannau'n gofyn am Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach (Memorandwm Rhif 3) gael ei osod gerbron y Senedd. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto i nodi fy safbwynt ar y gwelliannau, sydd wedi'u hatodi isod.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Sub-clause 16 (7)**

(7) In Schedule 7B to the Government of Wales Act 2006 (general restrictions on legislative competence of Senedd Cymru) in paragraph 11(6)(b) (exceptions to restrictions relating to Ministers of the Crown)—

(a) omit the "or" at the end of paragraph (vi), and

(b) after paragraph (vii) insert "; or

(viii) the Professional Qualifications Act 2022".

**New Clause**

"Consultation with devolved authorities

(1) Before making regulations under this Act, the Secretary of State or the Lord Chancellor must consult—

(a) the Welsh Ministers, to the extent that the regulations contain provision which could also be made by the Welsh Ministers by virtue of section 16(2) (ignoring any requirement for the consent of a Minister of the Crown under section 16(5));

(b) the Scottish Ministers, to the extent that the regulations contain provision which could also be made by the Scottish Ministers by virtue of section 16(3);

(c) a Northern Ireland department, to the extent that the regulations contain provision which could also be made by a Northern Ireland department by virtue of section 16(4).

(2) The Northern Ireland department which is to be consulted in accordance with subsection (1)(c) is such Northern Ireland department as the Secretary of State or (as the case may be) the Lord Chancellor considers appropriate having regard to the provision which is to be contained in the regulations concerned.

(3) Before making regulations under this Act in relation to which the Secretary of State or the Lord Chancellor has consulted a devolved authority (or more than one devolved authority) in accordance with subsection (1), the Secretary of State or (as the case may be) the Lord Chancellor must publish a report on the consultation.

(4) But the Secretary of State or (as the case may be) the Lord Chancellor may not publish the report unless either—

(a) the devolved authority concerned (or, if more than one, each of them) has agreed to the description included in the report for the purposes of subsection (5)(a), or

(b) there is no such agreement but the period of 30 days, beginning with the day on which a draft of the report was first sent to the devolved authority concerned (or, if more than one, the last of them), has expired.

(5) The report on the consultation must include—

(a) a description of—

(i) the process undertaken in order to comply with subsection (1), and

(ii) any agreement, objection or other views expressed as part of that process by the devolved authority (or devolved authorities) concerned, and

(b) an explanation of whether and how such views have been taken into account in the regulations (including, in a case where the Secretary of State or (as the case may be) the Lord Chancellor proposes to make the

regulations despite an objection, an explanation of the reasons for doing so).

(6) The duty to consult in subsection (1) does not apply in relation to any revision of the regulations which arises from the consultation; and, for the purposes of subsection (4)(b), the draft report need not be identical to the published report for the period of 30 days to begin.

(7) In this section “devolved authority” means the Scottish Ministers, the Welsh Ministers or a Northern Ireland department.”

BANC DATBLYGU CYMRU
DEVELOPMENT BANK OF WALES

Paul Davies AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10fed o Fawrth 2022

Annwyl Paul,

**Craffu ar adroddiadau blynyddol - Banc Datblygu Cymru**

Diolch am y gwahoddiad i siarad â'r pwyllgor fis diwethaf ac am y cyfle i ateb cwestiynau ar berfformiad y Banc Datblygu a'r heriau a'r cyfleoedd strategol sy'n deillio o'r pandemig a'r adferiad economaidd.

Rydych wedi gofyn i mi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y cynnydd ar dri mater allweddol a godwyd yn ystod y sesiwn:

**Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru**

Yn Llythyr Cylch Gwaith tymor y llywodraeth ar gyfer Banc Datblygu Cymru, nododd y Gweinidog ei ddisgwyliad y dylai'r Banc Datblygu nodi opsiynau i Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru weithredu ar sail fythwyrdd. Mae hwn yn amcan tymor canolig i'r Banc Datblygu ac mae'r Gweinidog yn disgwyl adolygu cynnydd ar bwynt canol tymor y gronfa yn 2025/26. Byddwn yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am ganlyniad y gwaith hwn maes o law.

**Swyddi gwyrddach a datgarboneiddio**

Bydd cefnogi agenda datgarboneiddio Llywodraeth Cymru yn flaenoriaeth allweddol i'r Banc Datblygu ar draws y tymor hwn o Lywodraeth ac rydym yn croesawu'r cyfle i roi diweddariad pellach i'r pwyllgor wrth i gynlluniau fynd rhagddynt.

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol**
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
**Europe & Wales: Investing in your future**
European Regional Development Fund

**Development Bank of Wales Plc**
1 Capital Quarter, Tyndall Street, Cardiff CF10 4BZ
029 2033 8100 | info@developmentbank.wales | developmentbank.wales

Development Bank of Wales Plc is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at www.developmentbank.wales



Development Bank of Wales Plc - Registered in England and Wales under number 4055414 at 1 Capital Quarter, Tyndall Street, Cardiff CF10 4BZ

**Busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr**

Ers 2017, mae’r Banc Datblygu wedi cefnogi 57 o gwmnïau gyda £21.5m o gyllid ar gyfer allbryniannau gan reolwyr gan gynnwys 1 ymddiriedolaeth perchnogaeth gweithwyr (YPG). Yn nodweddiadol , mae'r allbryniannau gan reolwyr a ariannwn yn golygu bod perchennog busnes yn gwerthu i'r tîm rheoli cyflogedig. Hyrwyddir hyn gan ‘Perchnogaeth Gweithwyr Cymru’ fel un opsiwn perchnogaeth gweithwyr ochr yn ochr â YPGau a Chynlluniau Cyfranddaliadau Gweithwyr.

Er bod YPGau wedi bod yn gymharol anghyffredin yn hanesyddol, mae newidiadau i fuddion treth y math hwn o drafodiad wedi bod yn ysgogi twf cyson ers 2014, wedi'i ysgogi'n bennaf gan BBaChau. Adroddodd y Gymdeithas Perchnogaeth Gweithwyr 576 o YPGau ar draws y DU gyfan sydd, er yn dal yn gyfran fach iawn o gyfanswm y boblogaeth fusnes, yn gynnydd sylweddol o 17 yn 2014.

Mae’r tîm ar hyn o bryd yn gweithio’n agos gyda Busnes Cymdeithasol Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru ar ymgyrch benodol i hyrwyddo allbryniannau gan weithwyr fel opsiwn ymarferol i berchnogion a allai fod yn ystyried eu hopsiynau olyniaeth. Mae digon o gyfalaf i gefnogi’r trafodion hyn ar gael yn rhwydd o gronfeydd presennol ac mae nodi busnesau sy’n addas ar gyfer bargeinion olyniaeth wedi bod yn ffocws allweddol ar gyfer ein gweithgarwch marchnata a datblygu busnes yn y blynyddoedd diwethaf.

Edrychaf ymlaen at roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r pwyllgor am gynnydd yn ddiweddarach eleni,

Yr eiddoch yn gywir



**Giles Thorley**

**Prif Weithredwr**

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

By email

Paul Davies MS
Chair of Economy, Trade, and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

10 March 2022

Dear Chair

**Border Controls Posts**

I'm writing to provide an update on the Welsh Government's programme to establish border control posts in Wales following the UK's exit from the European Union.

I can confirm that, as I announced to the Senedd in my statement of 10 March, I have appointed Kier Construction Ltd. as the contractor for the design of the proposed permanent Border Control Post facility to be situated at plot 9, Parc Cybi Holyhead. During the design stage of the contract Kier will work with the Welsh Government to produce detailed designs for the facility, which will then allow the cost and timetable to be confirmed. The build stage is subject to the granting of planning permission via a Special Development Order with a decision expected in May. I expect that the BCP will be operational by April 2023.

As you know, interim arrangements are being developed for each of the three Welsh ferry ports, to take effect from 1 July. This will ensure we maintain the flow of imports from the island of Ireland whilst protecting biosecurity and food safety. We continue to develop these plans with input from the local authorities and relevant enforcement agencies, (including the Animal and Plant Health Agency (APHA), as well as the ports.

My written statement also noted that negotiations have been terminated for the site at Johnston (for the combined BCP serving the two Pembrokeshire ferry ports) following site surveys which revealed a large number of bat species. The interim arrangements allow more time to consider all the options for the permanent BCP arrangements, whilst monitoring trade flow data and I am not ruling out any options at this stage. I expect to make a further statement after July.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

In December the UK Government extended staged controls for all movements of goods from the island of Ireland to Great Britain beyond 1 January 2022. The Foreign Secretary, Rt Hon Elizabeth Truss MP, wrote to confirm the continuing intention for full checking requirements to be introduced from 1 July - we are therefore planning on that basis. However, the negotiations on the Northern Ireland Protocol and unfettered market access continue to raise uncertainty for those that have to make preparations for the introduction of border controls from July 2022.

Yours sincerely



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig**

**Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru – Ymchwiliad i Dwristiaeth, Lletygarwch a Manwerthu**

## Cyflwyniad

Sefydlodd y *Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi*, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, egwyddorion sylfaenol adfer a'r cyfeiriad ar gyfer ein polisïau economaidd. Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-26 yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu'r genhadaeth.

Fel rhan o'r broses ddatblygu honno, ym mis Hydref cynhaliais uwchgynhadledd Economaidd ac wedyn gwnes ddatganiad llafar ar Symud Economi Cymru Ymlaen. Nodais bolisi economaidd blaengar sy'n canolbwyntio ar well swyddi, gan leihau'r rhaniad sgiliau a mynd i'r afael â thlodi er mwyn inni sicrhau tegwch gwirioneddol o ran y ffordd y mae'r economi yn tyfu. Mae gan y sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu ran allweddol i'w chwarae yn yr uchelgais honno.

Er i fesurau diogelu COVID-19 ddychwelyd, ar ôl i amrywiolyn Omicron ymddangos, ac wedyn cael eu llacio, mae cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas ag amrywiaeth eang o uchelgeisiau economaidd a byddaf yn gwneud Datganiad Llafar pellach ar gynnydd ar 22 Mawrth.

Nod y papur hwn yw amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y pandemig ac edrych ymlaen at y ffordd y byddwn yn ceisio cefnogi a gwella'r sectorau hyn dros y blynyddoedd i ddod.

## Cyd-destun

Mae twristiaeth a lletygarwch yn chwarae rôl bwysig yn economi Cymru, gyda'r naill yn cyfrif am 11.8% o weithlu Cymru a'r llall yn cyfrif am 9.6% ohono. Ar yr un pryd, y sector manwerthu yw'r cyflogwr mwyaf yn y sector preifat yng Nghymru, gyda 120,000 o gyflogeion sy'n cyfrif am 5.9% o werth ychwanegol gros (GYG) Cymru.

Rydym yn cydnabod, y tu hwnt i bandemig COVID-19, fod heriau parhaus ac y bydd ein ffocws a'n hymrwymiad yn gofyn am ymateb effeithiol. Mae'r sectorau yn wynebu heriau byrdymor a hirdymor, megis adfer hyder defnyddwyr, chwyddiant, yr argyfwng cost byw, costau ynni, sgiliau a recriwtio, heriau sy'n gysylltiedig â gor-dwristiaeth ac ati. Rydym yn gwbl ymwybodol y bydd angen cymryd camau pellach dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn helpu'r sectorau hollbwysig hyn i ddechrau gweithredu'n gynaliadwy unwaith eto a chyfrannu at adferiad Cymru.

Fodd bynnag, mae'r rhain yn sectorau â rhagolygon cadarnhaol oherwydd natur ac ansawdd y cynnyrch Cymreig sy'n cael ei gynnig a chryfder ym marchnad ddomestig y DU. Nid yw cyllid a chymorth yn fodd i gefnogi diwydiant sy'n wynebu heriau yn unig, gall hefyd fuddsoddi yn ffyniant hirdymor sawl rhan o Gymru. Mae'n rhaid inni hefyd sicrhau bod gan y sectorau yr adnoddau i gyflawni'r ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu gyffrous a gwneud yn siwr bod y sectorau yn addas ar gyfer y

dyfodol, gan eu galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd a fydd ar gael mewn byd ar ôl pandemig COVID-19.

**Cymorth COVID-19 ac adfer ar ôl y pandemig**

Mae pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith ddifrifol ar y sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu. Mae busnesau wedi wynebu heriau sylweddol na welwyd mo'u tebyg o'r blaen o'r dechrau ac, er gwaethaf ymyriadau ariannol helaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, disgwylir i ddirywiad y sector effeithio ar ein cymunedau – yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol – am amser maith i ddod.

Ein prif flaenoriaeth yn y byrdymor yw parhau i adfer y sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu a, chyda'n partneriaid, eu cryfhau a'u gwneud yn fwy cydnerth ar gyfer y dyfodol mewn ffordd gynaliadwy.

Wrth inni nesáu at yr hyn a fydd, gobeithio, yn ddiwedd ar y pandemig, mae'n bwysig cydnabod maint a chwmpas y cymorth a ddarparwyd. Yn ariannol, rydym wedi darparu lefelau o gyllid na welwyd mo'u tebyg o'r blaen er mwyn cefnogi busnesau drwy'r pandemig, gan gynnwys drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd a'r grantiau cysylltiedig ag ardrethi annomestig a'r grantiau dewisol a roddwyd gan awdurdodau lleol. Ers mis Ebrill 2020, drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd rydym wedi rhoi cyfanswm o £2.6bn i gefnogi bron i 300,000 o geisiadau ledled Cymru sy'n cynnwys yr is-sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu. Mae llawer o fusnesau yn y sectorau hyn hefyd wedi cael budd o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol gwerth £108m sydd wedi bod yn cefnogi digwyddiadau diwylliannol ac unigolion drwy gydol y pandemig.

Rydym hefyd wedi darparu cynlluniau adfer a chymorth i'r sectorau hyn drwy gydol y pandemig. Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi cynllun adfer, *Dewch i Lunio'r Dyfodol*, ar gyfer yr economi ymwelwyr a roddodd arweiniad a chymorth ehangach i'r sectorau drwy'r pandemig gyda'r nod o bontio'n ôl i'n cynllun strategol tymor hwy, *Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025* Rydym yn ystyried bod y cynllun adfer wedi dod i ben ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021-22. Cyhoeddir adroddiad cynnydd yn fuan, y gellir ei rannu â'r Pwyllgor maes o law, ac rydym bellach yn pontio'n ôl yn effeithiol i'n cynllun strategol tymor hwy.

Nodwedd allweddol drwy gydol y pandemig fu'r ymgysylltu cadarnhaol iawn sydd wedi digwydd gyda'r sectorau hyn. Bu Fforwm Economi Ymwelwyr dan arweiniad y Gweinidog ar waith drwy gydol y pandemig yn cwmpasu twristiaeth, lletygarwch, digwyddiadau a'r economi liw nos. At hynny, mae amrywiaeth o grwpiau sectoraidd penodol gan gynnwys, er enghraifft, ddigwyddiadau, priodasau, manwerthu a lletygarwch, wedi bod yn ddulliau pwysig o ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid, cyfleu negeseuon pwysig a gwrando ar adborth. Ein gobaith yw y gallwn ddefnyddio'r gweithgarwch ymgysylltu gwell hwn wrth inni barhau ar ein llwybr tuag at adfer ac yn ymgysylltu ynghylch themâu newydd sy'n cynnwys y sectorau hyn.

**Edrych i'r dyfodol**

Mae lle i fod yn hyderus ynghylch adfer y sector. Nododd y Baromedr Twristiaeth diweddaraf (Tachwedd 2021) fod y sector wedi cael tymor prysur estynedig i mewn i dymor yr hydref. Mae tua chwarter (27%) y gweithredwyr yn 'hyderus iawn' ynghylch gweithredu'n broffidiol ac mae tua hanner (49%) yn 'eithaf hyderus'. Mae'r lefel hon o hyder yn debyg i'r hyn a welwyd yn ystod hydrefau cyn pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae'r hyder hwn yn fregus am nad yw'n gyson rhwng is-sectorau ac am fod y gystadleuaeth yn debygol o fod yn gryf. Mae bwriad cadarnhaol i fynd ar fwy o deithiau gwyliau yn ystod y 12 mis nesaf gyda bwriadau o ran teithiau yn uwch ar gyfer teithiau domestig dros nos, tra bod llawer yn parhau i fod yn ansicr ynghylch gwyliau dramor. Mae 7% o'r rhai sy'n cynllunio taith yn y DU rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022 yn bwriadu ymweld â Chymru, sy'n codi i 9% rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Mae'r ddau ffigur hyn ychydig yn is na'r lefel yn 2021.

<u>Cyllideb ddrafft 2022-23</u>

Mae'r Gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr yn dyrannu £11,962m o refeniw a £5m o gyfalaf y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf ar gyfer twristiaeth. Mae gweithgarwch datblygu twristiaeth a buddsoddi mewn marchnata yn cyd-fynd â gweithgarwch ar ôl cyfnod y cynllun adfer, *'Dewch i Lunio'r Dyfodol'.* Bydd yn cefnogi'r sector wrth iddo ddod allan o'r pandemig a phontio'n ôl i'n strategaeth tymor hwy gyffredinol, *'Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025'*.

Bydd y buddsoddiad cyfalaf gwerth £5m yn parhau i helpu i sicrhau y caiff ymwelwyr brofiadau o ansawdd uchel a chefnogi cronfa Pethau Pwysig i gyflawni gwelliannau ar raddfa fach i seilwaith twristiaeth. Bydd Croeso Cymru yn parhau i gefnogi arloeswyr yn y diwydiant sy'n cyflwyno cynhyrchion o ansawdd uchel, sy'n gwella enw da cwmnïau. Ein prif fwlch o ran cynhyrchion yw llety o ansawdd uchel mewn sawl rhan o Gymru, felly yn unol â'n symudiad i werth dros swmp, byddwn yn gweithio gyda busnesau sy'n bodoli eisoes er mwyn gwella eu lefelau deiliadaeth a'u harenillion.

Mae angen inni barhau i fuddsoddi yn y seilwaith twristiaeth sylfaenol ledled Cymru, yn ogystal ag mewn profiadau o ansawdd uchel i ymwelwyr. Mae'r Pethau Pwysig yn gronfa gyfalaf gwerth £2.5m a fydd yn cyflawni gwelliannau sylfaenol ar raddfa fach i seilwaith twristiaeth ac yn sicrhau bod ymwelwyr â Chymru yn cael profiad cadarnhaol a chofiadwy drwy gydol eu harhosiad. Bydd Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru gwerth £50 miliwn, a ddarparwyd mewn partneriaeth â Banc Datblygu Cymru, yn parhau i helpu i ariannu buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau sy'n tyfu'r sector ac yn cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru.

Croeso Cymru sy'n gyfrifol am gynnal gweithgarwch sy'n helpu i ddatblygu'r economi ymwelwyr ledled Cymru mewn ffordd gynaliadwy gyda gweithgarwch marchnata busnesau i wella enw da a pherfformiad Cymru fel lle i weithio ac astudio, ymweld ag ef a buddsoddi ynddo.

Mae ein rhaglen Trawsnewid Trefi yn darparu £136 miliwn ac mae'n parhau i gefnogi adferiad economaidd a chymdeithasol canol trefi a dinasoedd ledled Cymru ymhellach. Mae canol trefi a dinasoedd a'u busnesau stryd fawr wrth wraidd ein

cymunedau. Un o'n blaenoriaethau yw sicrhau eu cynaliadwyedd hirdymor drwy weithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau eu bod yn fwy amrywiol gyda darpariaeth eang sy'n gwasanaethu'r gymuned leol ac yn annog pobl i ddefnyddio siopau, busnesau a gwasanaethau lleol.

At hynny, bydd pecyn ychwanegol gwerth £116m o ryddhad ardrethi annomestig ar gyfer talwyr ardrethi yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru. Byddant yn cael rhyddhad ardrethi annomestig o 50% yn 2022-23. Caiff y cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ei gapio ar £110,000 fesul busnes ledled Cymru. Mae ein dull gweithredu yn golygu y bydd busnesau yng Nghymru yn cael cymorth tebyg i'r hyn a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae ein brand Cymru Wales a'n hymgyrchoedd hefyd yn sicrhau bod ein hiaith yn ganolog i'n diwylliant ac yn cyfleu Cymru fel cenedl ddwyieithog sy'n wynebu allan. Wrth greu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol, bydd y dull busnes yn darparu sgiliau/ymgyrchoedd recriwtio, gweithgarwch marchnata ac amodau cymorth i fusnesau.

Mae twristiaeth yn hanfodol er mwyn gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt drwy ariannu cynlluniau a gweithgarwch creu lleoedd sy'n rhoi manteision cymunedol ochr yn ochr â manteision i ymwelwyr er mwyn “tyfu twristiaeth er lles Cymru”. Bydd Croeso Cymru yn parhau i gynnwys gweithgarwch sy'n annog unigolion sy'n byw ymhellach i ffwrdd, a all fod wedi ymweld â Chymru am y tro cyntaf yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, i ymweld â'r wlad eto yn ogystal â sicrhau bod manteision cymryd gwyliau gartref yng Nghymru ym mlaen meddwl ein dinasyddion.

Mae Croeso Cymru yn canolbwyntio ar ledaenu busnes, annog mwy o wariant y pen ac ymestyn y tymor twristiaeth traddodiadol. Ledled y DU ac yng Nghymru, mae gweithgarwch wedi bod yn digwydd drwy gydol yr Hydref a'r Gaeaf ar sianeli digidol, y teledu a Fideo ar Gais yn ogystal ag yn y wasg/cyfyngau.

Rydym hefyd yn targedu ymwelwyr rhyngwladol sy'n ystyried Prydain drwy wahanol feysydd gweithgarwch, e.e. defnyddio partneriaethau digidol er mwyn sicrhau bod Cymru o flaen y rhai sydd eisoes yn chwilio am wyliau yn y DU yn y dyfodol a'n cydberthnasau â gweithredwyr teithiau yn ogystal â hyrwyddo Cymru fel cyrchfan o'r radd flaenaf ar gyfer digwyddiadau busnes.  Byddwn yn parhau i weithio gyda VisitBritain er mwyn hyrwyddo safle Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Mae digwyddiadau yn rhan hanfodol o'r economi ymwelwyr. Mae gennym raglen lawn o ddigwyddiadau a gefnogir ac rydym yn cydweithio â'r sector i ddatblygu strategaeth ar gyfer digwyddiadau newydd i Gymru. Bydd y strategaeth hon yn llywio ein gwaith parhaus i ddatblygu digwyddiadau brodorol, denu digwyddiadau rhyngwladol a chefnogi'r sector yn ehangach.

Bydd mynd i'r afael â'r problemau o ran sgiliau a recriwtio yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n gweithgareddau. Mewn partneriaeth â phartneriaeth Twristiaeth a Sgiliau Cymru a arweinir gan y diwydiant, lansiwyd ymgyrch ym mis Awst 2021 i

gefnogi'r sector drwy godi ymwybyddiaeth o'r nifer mawr o swyddi gwag a'r amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael. Mae'r ymgyrch yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â Cymru'n Gweithio – sy'n cynnig gwybodaeth, cymorth a chyngor i unigolion mewn perthynas â hyfforddiant a chyflogaeth – a bydd yn parhau yn 2022. Byddwn yn parhau i dynnu sylw at yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer gyrfaoedd drwy adrodd hanesion go iawn pobl sy'n gweithio yn y sector a byddwn yn ychwanegu rhagor o astudiaethau achos yn fuan. Bydd y £10m ychwanegol ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol a gyhoeddwyd y llynedd yn sicrhau bod mwy o gogyddion, staff gweini a staff blaen y tŷ hyfforddedig ar gael i weithio yn y sector lletygarwch.

Manwerthu

O ran y sector manwerthu, bydd y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a minnau'n cyhoeddi Datganiad Sefyllfa yn barod ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.  Fe'i dilynir gan Weledigaeth Strategol yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol. Bydd y Weledigaeth Strategol yn cael ei hadnewyddu'n aml, wrth i'r sector esblygu ac i adlewyrchu canlyniadau ymchwiliad y Pwyllgor.

Bydd y weledigaeth yn dechrau sgwrs ac yn nodi'r heriau byrdymor, tymor canolig a thymor hwy ar gyfer sector manwerthu llwyddiannus, cynaliadwy a chydnerth sy'n darparu gwaith teg ac yn siarad â'r cyflogwyr a'r cyflogeion fel ei gilydd.

Mae'r weledigaeth yn cael ei harwain gan y Llywodraeth ond yn cael ei datblygu gyda'r sector manwerthu cyfan – ei gyflogwyr a'i weithwyr – ac ar gyfer y sector hwnnw. Caiff ei llywio drwy gynnal deialog â'r sector a bydd yn cyd-fynd â gweithgarwch ategol, megis gweithgarwch sy'n ymwneud ag adfywio canol trefi a dyfodol ardrethi busnes yng Nghymru.

Bydd yn ymgorffori partneriaeth gymdeithasol ymhellach fel ffordd o weithio ac yn adlewyrchu gwerthoedd fel y rhai a nodir ym mhedwar conglfaen Contract Economaidd Llywodraeth Cymru.  Bydd yn strategaeth a fydd yn ystyried dynameg y sector sy'n newid drwy'r amser a natur gyfnewidiol ein strydoedd mawr.

Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiadau pwysig a fydd yn ystyriaethau pwysig i'r is-sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu gyda gwaith cydgysylltiedig rhwng pob rhan o'r llywodraeth a'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys buddsoddi mewn prosiectau mawr, gan gynnwys ailddatblygu Theatr Clwyd, sefydlu Amgueddfa Bêl-droed yn Wrecsam, yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol a datblygu Amgueddfa Gogledd Cymru. Bydd y prosiectau hyn yn chwarae rôl bwysig yn yr economi ymwelwyr dros y blynyddoedd i ddod.

Gan adeiladu ar yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, rydym eisoes wedi cadarnhau y caiff ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr lleol ei lansio yn ystod hydref 2022. Mae ardollau twristiaeth yn arferol ar gyfer cyrchfannau twristiaid poblogaidd rhyngwladol. Rydym yn ymwybodol o lawer o ddulliau gweithredu gwahanol – mewn dinasoedd a rhanbarthau ac yn genedlaethol – a rhan

o'n gwaith fydd ystyried arferion gorau o bob cwr o'r byd a fyddai'n gweithio yng nghyd-destun Cymru. Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad economaidd sylweddol i Gymru gyda gwariant cysylltiedig â thwristiaeth yn cyrraedd mwy na £5bn bob blwyddyn yn 2019. Byddai treth dwristiaeth yn codi refeniw i awdurdodau lleol gan eu galluogi i reoli gwasanaethau a seilwaith sy'n gwneud twristiaeth yn llwyddiant. Byddwn yn mynd ati i ymgysylltu â'r sectorau twristiaeth, awdurdodau lleol, partneriaid cyflawni a phobl Cymru er mwyn helpu i lywio cynnwys yr ymgynghoriad a'r gwaith o lunio polisïau.

Rydym yn cydnabod, mewn rhai rhannau o Gymru, fod tai fforddiadwy y tu hwnt i gyrraedd rhai pobl oherwydd cyfuniad o brisiau tai sy'n codi a nifer anghymesur o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Rydym yn genedl groesawgar ac yn cydnabod bod twristiaeth yn rhan fawr o'n heconomi, sy'n dod â swyddi ac incwm i sawl rhan o Gymru. Ond rydym hefyd yn awyddus i helpu i sicrhau bod gan bobl ifanc obaith realistig o brynu neu rentu tai fforddiadwy yn y lleoedd y maent wedi tyfu i fyny ynddynt, er mwyn iddynt allu byw, gweithio a chefnogi eu cymunedau lleol. Rydym eisoes wedi nodi dull gweithredu teiran y llywodraeth a oedd yn cyfeirio at y ffordd y gallwn ddefnyddio ein fframwaith rheoleiddio i reoli ail gartrefi ychwanegol a llety gwyliau tymor byr yn well.

Cwblhawyd ymgynghoriad caeedig byr ar ddichonoldeb a ffurf bosibl cynllun trwyddedu neu gofrestru statudol ar gyfer llety gwyliau, gan gynnwys llety gwyliau tymor byr, a fydd yn llywio'r camau nesaf. Rydym wedi ymrwymo i sefydlu cynllun cofrestru gwirfoddol yn Nwyfor, er mwyn dysgu gwersi a llywio'r broses o weithredu cynllun statudol.

**Casgliad**

Wrth inni nesáu at ddwy flynedd ers dechrau'r pandemig, mae'n gyfle i fyfyrio ar gyfnod heriol iawn i'r sectorau hyn y gwnaethant lwyddo i ddod drwyddo yn y pen draw. Yn ddiau, mae gwersi i'w dysgu o'r profiad, cyfleoedd i fanteisio arnynt a chynigion cyffrous ar gyfer y dyfodol. Edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda'r Pwyllgor wrth iddo fwrw ymlaen â'r ymchwiliad.

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon